

Ymchwiliad Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i argaeledd Gwasanaethau Bariatrig – Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ar ymchwiliad y Pwyllgor Gofal Cymdeithasol i argaeledd gwasanaethau bariatrig yng Nghymru. Mae'r papur yn delio â'r materion y bydd y pwyllgor yn eu hystyried.
2. Mae llawdriniaeth fariatrig yn wasanaeth arbenigol, ac mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau arbenigol trydyddol yng Nghymru ar ran y Byrddau Iechyd Lleol. Y WHSSC sy'n penderfynu sut y bydd yr arian a ddyrannir i'r gwasanaeth hwn yn cael ei wario a'r meini prawf i'w cwrdd os bydd unigolyn angen bod yn gymwys am llawdriniaeth.
3. Datblygwyd y meini prawf mynediad presennol, a fu mewn grym yng Nghymru ers 2009, i sicrhau bod yr adnoddau prin sydd ar gael ar gyfer llawdriniaeth fariatrig yn cael eu targedu ar gyfer y cleifion hynny sydd â'r gallu mwyaf i elwa o llawdriniaeth. Gosododd WHSSC feini prawf fel y bydd llawdriniaeth (un ai drwy fand gastrig neu ddargyfeirio gastrig), yn cael ei ariannu ddim ond pan fydd claf yn cwrdd â meini prawf clinigol penodol, sy'n cynnwys bod â BMI uwch na 50, a chyd-forbidrwydd difrifol.
4. Cwblheir asesiad clinigol ac addasrwydd ar gyfer llawdriniaeth ar gyfer holl gleifion yng Nghymru gan Banel o Dîm Amlddisgyblaethol yn Sefydliad Llawfeddygaeth Gordewdra a Metabolaidd Cymru (WIMOS). Mae'r asesiad hwn yn cynnwys ystyriaethau corfforol a seicolegol, yn ogystal â'r gofyniad y cytunir ar nod o golli pwysau a newid ffordd o fyw cyn ystyried llawdriniaeth. Mae'r panel yn ystyried tystiolaeth ysgrifenedig fel na fydd angen i gleifion deithio i'r Sefydliad i gael eu hasesu.

Cynnydd a wnaed gan y Byrddau Iechyd Lleol ar yr argymhellion a amlygwyd o fewn Arolwg Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru o Ddarpariaeth Llawfeddygaeth Fariatrig a Meini Prawf Mynediad yng Nghyd-Destun Adroddiad Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan

5. Yn 2012 cynhaliodd y WHSSC adolygiad o bolisi llawfeddygaeth fariatrig. Asesodd yr adolygiad effaith canlyniadau iechyd a'r costau i GIG Cymru wrth fabwysiadu canllaw'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ar lawfeddygaeth fariatrig. Nod yr adolygiad oedd argymell dewisiadau i Gydbwyllgor y WHSSC ar gyfer adolygu'r polisi presennol ar lawfeddygaeth fariatrig.
6. Yn adroddiad adolygol y WHSSC a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012, argymhellwyd y dylid cynyddu'r nifer o weithdrefnau a chyfanswm yr arian, o 80 o weithdrefnau a £0.75m o fuddsoddiad yn 2011/12 fel y ganlyn:

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Achosion (Cymru gyfan)	128	171	214	257	300
Cyfradd (fesul 100,000 poblogaeth)	4.3	5.7	7.1	8.6	10
Gwariant	£0.96m	£1.29m	£1.61m	£1.93m	£2.21m
De Cymru	£0.66m	£0.88m	£1.1m	£1.32m	£1.5m
Gog Cymru	£0.30m	£0.41m	£0.51m	£0.61m	£0.712m

7. Argymhellodd y WHSSC hefyd y dylid adolygu'r meini prawf mynediad.
8. Argymhellodd y WHSSC ymagwedd ddeuol o welliannau yn haenau isaf y llwybr gordewdra, wrth fuddsoddi'r un pryd mewn cynnydd graddol mewn llawfeddygaeth fariatrig.
9. Mae cynllun comisiynu'r WHSSC ar gyfer 2013/14 yn cynnwys cyfnod 1 o'r buddsoddiad ychwanegol hwn, a disgwylir iddo, o ganlyniad i'r amser sy'n arwain i mewn, gychwyn yn gynnar yn 2014/15. Adlewyrchir y proffil buddsoddi ehangach i ddod â Chymru at y gyfradd ganllaw a gomisiynir gan NICE o 10 triniaeth fariatrig fesul 100,000 o'r boblogaeth, o fewn cynllunio comisiynu'r WHSSC o 2014/15 ymlaen.
10. Yn ychwanegol, dechreuwyd ar y gwaith gan lechyd Cyhoeddus Cymru i ddrafftio'r polisi mynediad clinigol ar gyfer gwasanaeth 3 haen o reoli pwysau. Mae'r WHSSC yn cydweithio ag lechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod y porth atgyfeirio rhwng gwasanaethau Lefel 3 a Lefel 4 yn eglur ac wedi ei gytuno.
11. Mae adolygiad o'r meini prawf mynediad, i gyd-fynd â'r cynnydd yn y lefelau o weithgaredd a gomisiynir, hefyd wrthi'n cael eu cytuno ac wedi eu hamlinellu yn y papur tystiolaeth a gyflwynwyd gan y WHSSC. Bydd hyn yn galluogi bod cleifion sy'n cwrdd â meini prawf NICE yn medru cael eu cyfeirio i'w hystyried ar gyfer llawdriniaeth fariatrig. Serch hynny, bydd ystod o feini prawf eraill i'w cwrdd, sy'n cynnwys gofynion sy'n galw am gysylltiad ymlaen llaw â gwasanaethau nad ydynt yn rhai llawfeddygol. Gwneir y penderfyniad i gynnig llawdriniaeth gan y tîm llawdriniaeth fariatrig yn WIMOS.

Effeithiolrwydd gwasanaethau arbenigol, o fewn Lefel 3 a 4 o Lwybr Gordewdra Cymru Gyfan, wrth ddelio â'r nifer cynyddol o bobl sydd yn rhy

drwm ac yn ordew yng Nghymru; a sut y mesurir ac y gwerthusir y gwasanaethau hyn, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian

12. Yn 2010, lansiodd Llywodraeth Cymru Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan, sydd yn egluro'r dulliau ar gyfer atal a thrin gordewdra yng Nghymru, o waith atal yn y gymuned ac ymyrraeth gynnar, i wasanaethau meddygol a llawfeddygol arbenigol. Mae byrddau iechyd wedi astudio polisiau, gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer plant ac oedolion ac yn rhoi datrysiadau ar waith i gwrdd ag anghenion lleol.

13. Mae'r Llwybr yn cynnig pedair lefel o ymyrraeth, ynghyd â gofynion gwasanaeth sylfaenol ar gyfer pob lefel y dylai'r byrddau iechyd lleol anelu atynt:

Nod y lefel gyntaf yw sicrhau bod ystod o gyfleoedd ar gael i'r cyhoedd i gefnogi unigolion wrth iddynt gyrraedd a chynnal pwysau iach, a hyrwyddo'r cyfleoedd hyn, heb yr angen i ddefnyddio gwasanaethau iechyd penodol, gydag amgylchedd cefnogol hefyd;

Yn lefel 2 ceir y ddarpariaeth o ystod o wasanaethau i unigolion sy'n dymuno colli pwysau ac sydd wedi eu hadnabod fel pobl sydd mewn perygl cynyddol o fynd yn ordew gan aelod o'r tîm gofal sylfaenol;

Nod y drydedd lefel yw sicrhau bod gwasanaethau ar gael i unigolion gordew sydd ag un neu ragor o achosion o gyd-forbidrwydd ac sydd wedi rhoi cynnig ar nifer o ymyriadau'n aflwyddiannus, neu'r rhai sydd â pherthynas emosiynol gymhleth â bwyd. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu ymyriadau mwy arbenigol nag ymyriadau blaenorol, gan gynnwys deiet, ymarfer corff ac elfennau ymddygiadol, i'w darparu drwy ofal sylfaenol ac eilaidd. Maent yn gweithio fel porth at ofal eilaidd sy'n sicrhau bod gwasanaethau gofal eilaidd yn cael eu defnyddio'n briodol;

Mae lefelau 3 a 4 yn ymyriadau penodol ar gyfer y rhai sydd â gordewdra a chyd-forbidrwydd wedi sefydlu, ac ni ellir eu defnyddio i ddelio â'r nifer cynyddol o bobl sydd yn rhy drwm ac yn ordew yng Nghymru;

Nod lefel 4 yw darparu gwasanaeth meddygol a llawfeddygol arbenigol (llawdriniaeth fariatrig) i'r unigolion hynny sydd wedi methu colli pwysau neu gynnal y pwysau delfrydol ar ôl ei golli, drwy ymyriadau eraill yn y llwybr.

14. Bu byrddau iechyd yn cydweithio ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i edrych ar bolisiau, gwasanaethau a gweithgaredd lleol ar gyfer plant ac oedolion yn erbyn Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan ac wedi rhoi datrysiadau lleol ar waith i gwrdd ag anghenion lleol.

15. Profwyd bod llawdriniaeth fariatrig yn gost effeithiol wrth ddewis unigolion priodol. Mewn gwaith ysgrifenedig a gyhoeddwyd nodir bod cost effeithiolrwydd llawdriniaeth fariatrig ymhell o fewn y trothwy cost effeithiolrwydd a osodwyd gan NICE wrth argymhell ymyriadau i'w comisiynu gan y GIG. Ceir peth tystiolaeth sy'n dangos y gall llawdriniaeth fariatrig arbed arian gyda rhai cleifion gyda'r arian

hwnnw'n amlygu ei hun o fewn tua 2 flynedd (yn enwedig gyda diabetes sy'n digwydd yn gynnar sydd yn cael ei wella yn dilyn llawdriniaeth).

Lefelau o fuddsoddiad wedi ei ddyrannu ar hyn o bryd i ddarparu llawdriniaeth fariatrig yng Nghymru ac argaeledd llawdriniaeth gordewdra a gwasanaethau arbenigol ar reoli pwysau ledled Cymru

16. Mae'r cynnydd a wneir gan fyrddau iechyd lleol yn cael ei fonitro bob blwyddyn. Dengys hyn bod pob bwrdd iechyd lleol yn darparu gwasanaethau lefel 1 a 2.
17. Hyd yma mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o un bwrdd iechyd lleol yn unig sydd wedi cyflwyno gwasanaeth lefel 3 cynhwysfawr, yn unol â chanllaw NICE (Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan). Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i fonitro'r sefyllfa ac wedi cyfarfod â'r byrddau iechyd lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i drafod sut i lenwi'r bwlch hwn.
18. Mae gan bob un o'r byrddau iechyd lleol fynediad at wasanaethau lefel 4 (llawdriniaeth fariatrig) sydd yn cael ei fonitro gan y WHSSC. Darperir llawdriniaeth i bobl de Cymru yn WIMOS, sydd wedi ei leoli yn ysbyty Treforys, Abertawe. Mae llawdriniaeth ar gyfer pobl gogledd Cymru'n digwydd yn Ymddiriedolaeth GIG Frenhinol Salford, ar y sail bod teithio i Fanceinion Fwyaf yn llai anghyfleus i gleifion a'u teuluoedd nag Abertawe.
19. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n monitro'r llwybr gordewdra. Gofynnir i fyrddau iechyd lleol asesu eu perfformiad yn erbyn y gofynion gwasanaeth sylfaenol a amlinellir yn y llwybr, erbyn 26 Chwefror 2014.
20. Buddsoddir £500,000 y flwyddyn o fewn contractau ar gyfer llawdriniaeth fariatrig yn ne Cymru (gyda phob bwrdd iechyd lleol perthnasol yn cyfrannu) a thua £250,000 y flwyddyn ar gyfer gogledd Cymru. Bydd hyn yn cynyddu yn 2014/15 yn unol â'r proffil twf arfaethedig a osodir yn adolygiad y WHSSC yn unol â pharagraff 6 uchod.

Crynodeb

21. Mae graddiant cymdeithasol amlwg a chyson yn perthyn i ordewdra; felly mae angen i ni ganolbwyntio llawer mwy ar ardaloedd difreintiedig. Mae gan gymunedau lleol ran bwysig i'w chwarae wrth ddelio â'r mater, ac mae'n bwysig ein bod ni'n troi at y cymunedau eu hunain i weithredu er mwyn delio â gordewdra, gyda'r llywodraeth a darparwyr gofal iechyd yn darparu cymaint o gymorth a chefnogaeth â phosibl. Mae'r polisi Cyflawni Canlyniadau a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i annog colli pwysau cyn llawdriniaeth yn enghraifft wych o hyn. Serch hynny, mae'r cynnydd mewn galw a chyflymder datblygiad y gwasanaethau yn golygu y bydd cyfyngiadau bob amser ar y gwasanaethau fydd ar gael ar unrhyw adeg benodol.